# Y Dinesydd

Medi 2012 Rhif 370 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## Eisteddfod Bro Morgannwg – Y Trefnwyr yn hapus



**Dywed trefnwyr Eisteddfod Bro Morgannwg yn Llandŵ fod y digwyddiad wedi bod yn "hwyliog, braf a phositif."** Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, Dylan Jones, bod Eisteddfodwyr wedi cael blas ar y Fro yn ogystal â bod yr Eisteddfod wedi rhoi blas arbennig i bobl y Fro. "Rydan ni fel trigolion y Fro yn ddiolchgar tu hwnt i swyddogion yr Eisteddfod am eu gwaith ac am y croeso y maen nhw wedi eu rhoi i ni. Rydan ni wedi rhoi croeso i weddill Cymru i'r Fro ond rydan ni wedi cael croeso fel pwyllgor lleol." Eglurodd bod 'na bethau concrid i ddod o'r Eisteddfod gan gynnwys cofgolofn i Iolo Morgannwg a Tŷ Cadog, canolfan iaith yn Y Barri. "Tu hwnt i'r rhain fe fydd yr ysbryd yn parhau yn yr ardal a hwnnw yn un adeiladol."

## Coron yr Eisteddfod i wraig o Gaerdydd



Llongyfarchiadau i Gwyneth Lewis ar ennill Coron yr Eisteddfod a gafodd ganmoliaeth uchel; am y gerdd i'r "Ynys" o'i heiddo. Roedd 32 o feirdd yn ymgiprys am y goron eleni yn ôl y beirniaid ond roedd gwaith Gwyneth ben ac ysgwydd uwchben pob un arall. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Bryntaf a Rhydfelen ac enillodd Fedal Lenyddiaeth yr Eisteddfod yr Urdd yn y Barri yn 1977 a Llanelwedd yn 1978. Cafodd yrfa academaidd ddisglair cyn penderfynu canolbwyntio ar lenydda yn 2002. Bu'n Fardd Cenedlaethol Cymru yn 2005/6 a derbyniodd y Wisg Wen yn Eisteddfod Abertawe yn 2006. Mae hi'n barddoni yn y ddwy iaith a hi a gyfansoddodd y geiriau ar flaen Canolfan y Mileniwm yn y Bae.

Cyfieithodd ddrama Shakespeare "Y Storm" i'r Gymraeg ar gyfer ei pherfformio yn yr Eisteddfod eleni ac mae pawb a'i gwelodd yn canmol yr action a'r gwaith cyfieithu yn fawr iawn. Pob llwyddiant yn y dyfodol i'r wraig ddisglair hon.

## Tlws y Cerddor i Ŵr o Gaerdydd



Llongyfarchiadau i Gareth Hughes, cyn ddisgybl o Ysgol Bro Eirwg ac Ysgol Gyfun Glan Taf ar ei lwyddiant yn ennill Tlws y Cerddor yn yr Eisteddfod gyda chlod arbennig ym marn y beirniaid am ei Sonata i delyn a ffliwt. Mae e'n fab i Sara Martel Hughes ac yn ŵyr i Sally Hughes a'r diweddar John Martel Hughes a fu'n gadeirydd Pwyllgor Gwaith y ddwy eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd yn 1988 a 2004. Bu ei nain yn un o athrawesau cyntaf Cylch Meithrin Cymraeg Rhiwbeina pan y'i sefydlwyd yn ôl yn 1959.

# Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
**Hefin Mathias**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Siân Parry-Jones**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi erbyn 27 Medi i:
87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4NH
Ffôn: 07985 043633
sepj@cardiffbay.clara.co.uk

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


# NEWYDDION

## Llwyth

Nos Sadwrn gêm ryngwladol ac mae'r brifddinas yn wyllt. Mae Cymru wedi colli ond mae pedwar ffrind hoyw yn benderfynol o gael noson i'w chofio. Yn dyner a direidus am yn ail, dyma ddrama sy'n taflu golwg feiddgar ar Gymreictod, gwrywdod, perthyn a chariad.

Bydd cast *Llwyth* yn gwneud ei ymddangosiad olaf yn Sherman Cymru ar ôl dychwelyd o'i daith ryngwladol i Ŵyl Gelfyddydau Taipei dros yr haf. Dafydd James o Gaerdydd yw'r awdur – gŵr sy'n prysur ennill enw iddo'i hun ym myd y ddrama. *"It's where it all began!"* yw geiriau Aneurin ar ddiwedd Llwyth. Geiriau sy'n berthnasol iawn wrth feddwl bydd perfformiad ola'r ddrama yn digwydd yn Sherman Cymru yn yr hydref [25 Medi- 6 Hydref]. Meddai Dafydd: "Freuddwydiais i fyth pyrnu y byse'r cynhyrchiad yn mynd ar daith deirgwaith o gwmpas Cymru ac yn ymddangos mewn gwyliau drama yng Nghaeredin a Taiwan! Mae wedi bod yn antur a hanner; mae'n braf cael dod adref."

***Adam Jones, Sherman Cymru***

## Llyfr Newydd

A ydych wedi clywed am y cyfansoddwr '*Ioan* Sebastian Bach'? Na finnau, ychwaith! Gwelais yr enw fel ateb mewn arholiad cerddoriaeth pan roeddwn yn athro ysgol, a dechreuais gasglu atebion difyr, doniol ac anesboniadwy eraill. Ffrwyth fy llafur yw llyfr electronig newydd o'r enw **Cerddoniol!** Am $1.50/tua 95c gallwch lawrlwytho **Cerddoniol!** Am fwy o wybodaeth, ewch i **Smashwords.com.** Mwynhewch ac i fyny bo'r nodyn!

***Dulais Rhys***

## Cymdeithas Golff y Ddinas Awst 2012

Yn dilyn cystadleuaeth y Parau yn Radur mis Mehefin ymwelodd y gymdeithas a Chlwb Golff Maesteg ddiwedd mis Awst i gystadlu am Dlws "Yr Hen Byter". Nid oedd y gymdeithas wedi ymweld â'r cwrs am yn agos at 20 mlynedd ac roedd gwelliannau diweddar yn amlwg

Lleolir y cwrs ym Maesteg ar yr ucheldir ar y ffordd o Faesteg tuag at y Bryn ac Aberafan. Er cyfnod o law trwm yn ddiweddar roedd y tywydd yn braf ac fe dderbyniodd y lawntiau canmoliaeth uchel am eu cyflwr. Un enillydd clirar ddiwedd y dydd oedd Peter Gillard a sgoriodd 36 pwynt oddi ar gychwyniad o 17. Peter hefyd a enillodd y wobr am yr agosaf i'r twll ar y 6ed. Meurig Phillips a yrrodd y Dreif Hiraf at y 18fed gyda Owain Gwilym gyda'r sgôr orau am y 9 twll cyntaf ac Eynon Williams y gorau am yr ail naw.

Yn ogystal â chystadlu am dlws "Yr Hen Byter" roedd y gystadleuaeth yn gymal i ddewis tîm y Gymdeithas i gystadlu yn ornest "Golffwyr Gwalia" yn Aberystwyth ar Hydref 6ed. Felly fe fydd Peter Gillard, Meurig Phillips, Ceri Edwards, Owain Gwilym, Eynon Williams a Wyn Pryse Jones yn cynrychioli'r gymdeithas yng Ngheredigion dechrau mis Hydref. Am fanylion pellach am gystadlaethau'r gymdeithas mynnwch air gyda unrhyw un o'r aelodau neu ehebwch gyda Geraint.hampson-jones@brewin.co.uk

## Clwb y Dyrlwyn

Nos Fawrth, Medi 25, am 8.00 o'r gloch, Clwb Rygbi Pentyrch. Noson Agoriadol Clwb Y Dwrlyn yng nghwmni'r cerddor bytholwyrdd Rhys Jones, y cyfansoddwr, arweinydd a darlledwr o Glwyd. Croeso cynnes i bawb.

# Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Llongyfarchiadau

**Cymanfa Ganu Lwyddiannus**

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Flynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yng Nghapel Beulah Rhiwbeina ar nos Sul yr 8 Gorffennaf. Yr arweinydd oedd Emrys Roberts a'r Dr Alun Jones wrth yr organ. Cymerwyd rhan yn y gymanfa gan Hannah George, Côr Ysgol Y Wen a Chôr Aelwyd Hamdden, a chafwyd canu ardderchog gan bawb.

**Llwyddiant i ddau o Gaerdydd**

Llongyfarchiadau i John Gower ar ennill y brif wobr Gymraeg mewn seremoni dan nawdd Llenyddiaeth Cymru yn y Coleg Cerdd a Drama am ei nofel "Y Storïwr; ac i Gwyneth Lewis am ei chyfres o farddoniaeth "Sparrow Tree".

**Gwobr i ŵr o Bontcanna**

Llongyfarchiadau i Carwyn Jones o Asiantaeth Gynllunio Hoffi ar ennill cystadleuaeth "Photomarathon" gyda deuddeg llu ar ddeuddeg testun Fe gurodd ryw 500 o gystadleuwyr eraill. Dyma'r nawfed flwyddyn i'r gystadleuaeth hon gael ei chynnal. Cynhaliwyd arddangosfa o'r holl luniau yn y gystadleuaeth yn Amgueddfa Stori Caerdydd o 21 Gorffennaf hyd 9 Awst.

**Rhodd Hael**

Mae Pwyllgor Y Dinesydd yn ddiolchgar iawn am y rhodd hael o £125 gan Gylch Llyfryddol Caerdydd tuag at gronfa' papur.

**Llwyddiant i ŵr o St Hilari**

Cynhaliwyd seremoni arbennig i gyflwyno tystysgrifau i ymgeiswyr llwyddiannus arholiadau'r Gymraeg i oedolion ym Mhafiliwn Maes D ar faes yr Eisteddfod, ac yna yn eu plith oedd Gareth Thomas o St Hilari a ddychwelodd i fyw yng Nghymru ar ôl treulio dros ddeugain mlynedd yn Lloegr. Llongyfarchiadau iddo ac i'r ymgeiswyr eraill a brysiwch i groesi'r bont yn llwyr. Bu Gweinidog Addysg Cymru, Leighton Andrews, yn bresennol yn y seremoni ac anerchodd y cyfarfod gan estyn llongyfarchiadau i'r enillwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

**Priodasau**



Llongyfarchiadau i Manon Hefin Mathias (o'r Eglwys Newydd yn wreiddiol) a Lewis Martin Allan (Aberdeen), ar eu priodas ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth, ddydd Sadwrn 30 Mehefin. Mae Manon yn darlithio ym Mhrifysgol Bangor a Lewis yn gweithio i'r gwasanaeth sifil, ac maen nhw'n byw yn Llundain ar hyn o bryd.

Ar brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 14eg priodwyd Matthew Wills (o Radur) ac Esther Laugharne (o'r Wyddgrug) yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth. Y Parch R. Alun Evans oedd yn gweinyddu'r briodas gyda Steffan, brawd Esther wrth yr organ. Yn dilyn y gwasanaeth yng Nghapel Bethlehem cafwyd paned yn y festri gyda chyfarchion arbennig i fam-gu Esther oedd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 99 ar Orffennaf 10fed. Mae Esther yn gweithio'n agos gyda thîm pêl-droed Cymru fel rheolwraig Perfformiad Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cenedlaethol Cymru. Mae Matt ar fin cychwyn fel ffisiotherapydd yn Ysbyty Castell Nedd Port Talbot. Dymuniadau gorau i'r ddau.



Priododd Iestyn, mab ieuaf Dafydd a Maria Hampson-Jones o Landaf a Sara Bowen yng Nghapel y Nant, Clydach, Abertawe ar Orffennaf 27. Mae Iestyn a Sara yn gweithio ym myd y cyfryngau yma yng Nghaerdydd ac yn byw yn y Bae. Llongyfarchiadau i'r ddau.

# *Cydymdeimlo â*

• Theulu'r diweddar Hywel Iwan Jones Llanilltud Faerdre ond gynt o Lanisien, a fu farw yn Y Bwthyn Pontypridd ar y 4ydd Gorffennaf. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar y 12 Gorffennaf.

• Teulu'r diweddar Lamela Elizabeth Morgan, gynt o Gaerdydd a fu farw yng Nghartre Dyffryn Ffrwd ar y 22 Mehefin. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar y 9 Gorffennaf.

• Teulu'r diweddar Eryl Wals, Y Rhath, Caerdydd ond gynt o Aberystwyth, a fu farw yn Nhŷ Penrhos Caerffili ar y 27 Mehefin. Bu'r angladd yng Nghapel Seion ar y 7 Gorffennaf, ac yn dilyn yn Amlosgfa Aberystwyth.

• Teulu'r diweddar Olga Davies, Pantmawr, Rhiwbeina a fu farw yng Nghartref Gofal Y Forge ar y 26 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar y 8 Awst.

• Teulu'r diweddar Katherine Lloyd Roberts o Ddolygarreg, Penmaenmawr a Phenglas, a fu farw yn 90 mlwydd oed yn Nhŷ Nazareth, Column Road, Caerdydd ar yr 31 Gorffennaf. Bu'r angladd yn Nhŷ Nazareth ar y 3 Awst ac yna yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen.

**Marw actores amlwg yn Llundain**

Ar y 21 Gorffennaf bu farw'r actores Angharad Rees 63 mlwydd oed wedi dioddef am gyfnod hir o ganser y pancreas. Roedd yn byw yn Llundain ond yn ystod ei phlentyndod bu'n byw yn Heol Wen, Rhiwbeina, cyn i'w theulu symud i Lundain gan fod ei thad, y diweddar Athro Linford Rees, wedi cael gwaith yno fel seiciatrydd. Roedd ei theulu yn hanu o ardal Porth Tywyn a Chwm Tawe. Fei'i cofir yn arbennig amdani yn actio yn y gyfres Poldark. Gedy ŵr, sef David McAlpine a mab Rhys.

## Haf 2012

Dyma'r haf prysuraf eto i Fenter Caerdydd. Cynhaliwyd sesiynau chwarae Bwrlwm, mewn 6 lleoliad, ac yn ystod yr haf, daeth dros o blant i'r sesiynau. Yn ogystal â chyfleoedd chwarae a chymdeithasiu drwy gyfrwng y Gymraeg, aeth y plant ar daith i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llandŵ, cael gweithdy roc, parti a chymryd rhan mewn mabolgampau dan do yn ysbryd y Gemau Olympaidd.

Cynhaliwyd Cynlluniau Gofal yn Ysgol Treganna ac Ysgol Glantaf gyda nifer fawr o'r dyddiau'n llawn. Bu'r plant yn coginio, dysgu ieithoedd tramor yn ogystal a mynd ar sawl daith a chael ambell i frwydr dŵr.



Cawsom hwyl yng Nghaeau Llandaf a Pharc Hailey gyda'r sesiynau Hwyl Haf. Fe fynychodd dros 200 o blant y gweithgareddau dros ddau ddiwrnod, a diolch byth, roedd y tywydd yn sych a'r haul yn gwenu!

Fel rhan o Ŵyl Ddysgu'r Haf Cyngor Caerdydd ar gyfer disgyblion ysgolion Uwchradd, aeth bws mini llawn i syrffio yn Llangennydd, a chafodd griw arall gwrs coginio am ddeuddydd yng nghwmni Rhian Clarke Cegin Fach.

## Clybiau Plant

Mae Menter Caerdydd ar y cyd â'r Urdd wedi trefnu amserlen brysur a chyffrous i blant cynradd y tymor hwn. Bydd 14 o glybiau plant yn dechrau ym mis Medi - Clwb Pêl-Rwyd, Dawnsio Stryd, Rygbi, Clybiau Nofio, Clybiau Gymnasteg, Clybiau Drama Cymunedol (ar ôl ysgol), Ysgol Ddrama Ffwrnais Awen. I gofrestru ewch i'r wefan – mentercaerdydd.org a chliciwch ar **'Clybiau'** ar y dudalen flaen.

## Sblish Sblash Babis Dŵr

Yn dilyn llwyddiant y cyrsiau hwyliog yn y dŵr i fabis bach a'u rhieni dros y flwyddyn ddiwethaf, byddwn yn parhau gyda'r cyrsiau yn mis Medi. Fe fydd y sesiynau yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin yn Nhrelai a Chanolfan Hamdden y Tyllgoed. Mae'r sesiynau'n addas ar gyfer babanod 3 mis i 3 mlwydd oed. Am fwy o fanylion, ewch i'r wefan – mentercaerdydd.org a chliciwch ar **'Teulu'** ar flaen y wefan, neu ebostiwch marirhys@mentercaerdydd.org.

## Cwis

Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn y **Mochyn Du, Gerddi Soffia, nos Sul Medi 30 am 8 o'r gloch.** Croeso cynnes i bawb. £1 yr un i gymryd rhan.

## Cyrsiau Oedolion

Mae Menter Caerdydd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd wedi trefnu amserlen o ddosbarthiadau i oedolion fydd yn cychwyn ddiwedd mis Medi a dechrau mis Hydref: Sbaeneg, Eidaleg, Cynganeddu i Ddechreuwyr, Cynganeddu - Ymarfer y Grefft, Zumba, Ymarfer Circuits, Crefftau Cymreig Cyfoes, Cwiltio, Clytwaith, Gwnio a Gwau, Traddodiadau Gwerin Morgannwg, Cadw'n heini 60+, a Ffotograffiaeth. Am fwy o fanylion ewch i mentercaerdydd.org a chliciwch ar **'Oedolion'** neu cysylltwch ag Awel Davies aweldavies@mentercaerdydd.org/ 02920 689888.

## Theatr Ieuenctid Caerdydd

Bydd Theatr Ieuenctid Caerdydd yn dechrau o'r newydd y tymor hwn, wrth i ni newid lleoliad i Sherman Cymru yn Cathays. Bydd y tymor 10 wythnos yn dechrau Nos Wener, Medi 28 rhwng 5.30pm a 7pm. Mae'r sesiynau newydd yn addas ar gyfer disgbylion blwyddyn 7, 8, 9 a 10. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Sherman, bydd y sesiynau, dan arweiniad tiwtoriaid proffesiynol, yn cynnig cyfleoedd perfformio, gweithdai creadigol ac ymarferol, ymweliadau i weld cynhyrchiadau proffesiynol a pherfformiad diwedd blwyddyn yn nhymor yr Haf 2013. £60 bydd y ffi cofrestru ar gyfer tymor yr Hydref. I gofrestru, neu am fwy o fanylion, ewch i mentercaerdydd.org a chliciwch ar **'Ieuenctid'** neu cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org.

## Facebook a Twitter

Cofiwch bod gennym gyfrif Facebook a Twitter, felly beth am ein dilyn ni, neu ychwanegu ni fel ffrind er mwyn sicrhau eich bod chi'n derbyn y newyddion diweddaraf!

# Colofn G.R.

Y tro diwethaf i mi sgrifennu'r golofn hon on i'n sôn am brysurdeb yr haf ac yn dymuno pob llwyddiant i Eisteddfod Bro Morgannwg. Cafwyd chwip o Ŵyl a gwelwyd llawer o drigolion Caerdydd yn cipio gwobrau yn ystod yr wythnos. Llongyfarchiadau arbennig i Gwyneth Lewis ar gipio'r Goron ac i Gareth Hughes am gipio medal y Cerddor a'r ddau yn cael eu canmol i'r cymylau gan y beirniaid.

Ar yr 28 Gorffennaf cyn yr Eisteddfod cynhaliwyd Gŵyl y Glaniad Flynyddol yng Nghlwb Rygbi tre Dinbych dan nawdd Cymdeithas Cymru Ariannin i gofio am ddewrder y Gwladfawyr cyntaf yn glanio ar draeth Porth Madryn nôl yn 1865. Daeth dros 70 ynghyd i fwynhau'r achlysur o bob cwr o Gymru. Croesawyd yn arbennig deulu sy'n perthyn i R Bryn Williams cyn Archdderwydd Cymru, pregethwr, bardd, llenor a hanesydd y Wladfa. Mae ŵyr i R Bryn Williams yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio i dîm rygbi'r ddinas. Braf odd sylwi ar yr arwyddion dwyieithog ymhob man yn y Clwb Rygbi. Felly, mae hi'n argoeli'n dda am groeso Cymreig go iawn pan fydd yr Eisteddfod yn ymweld â Dinbych y flwyddyn nesa!

Cafodd y Wladfa dipyn o sylw yn yr Eisteddfod eleni gan i ŵr 29 oed o Drevelin yn yr Andes gipio gwobr cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn. Er nad oes gwaed Cymreig yn perthyn iddo mae Isaias Grandis Dysgwr y Flwyddyn wedi mopio'n lân ar y Gymraeg ac yn gweithio'n ddygn i hybu'r iaith yn yr Andes a phleser o'r mwyaf ydy gwrando arno yn siarad Cymraeg mor rhwydd a rhugl. Felly odd o'n llawn haeddu ennill y gystadleuaeth hon. Dyma'r ail berson o Drevelin i ennill y wobr hon gan i Sandra De Pol gipio'r wobr nôl yn Eisteddfod Llanelli 2000. Mae hi'n byw a gweithio yng Nghaerdydd bellach.

Daeth Medal Aur o'r Chwaraeon Olympaidd nôl i Gaerdydd gan i Geraint Thomas gipio Medal Aur mewn cystadleuaeth seiclo. Mae o'n gyn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd sef hen ysgol Sam Warburton a Gareth Bale. Daw tad Geraint o San Clêr yn Sir Gaerfyrddin. Felly, llongyfarchiadau iddo fo a'r chwe athletwr arall o Gymru a lwyddodd i ennill medalau. Trueni eu bod wedi gorfod chwifio Jac yr Undeb yn hytrach na'r Ddraig Goch gan eu bod yn cystadlu yn rhan o dîm athletau Prydain!

Croeso gartre hefyd i'r pêl-droediwr dawnus a chwim Craig Bellamy sy newydd arwyddo i chwarae i'r Adar Gleision neu a ddylwn i ddweud yr Adar Cochion am o leiaf tymor! Dyma'r ail dro iddo chwarae i dîm Caerdydd ac yn ôl y sôn mae o'n cymryd gwymp sylweddol yn ei gyflog wrth ddychwelyd i'w ddinas enedigol er mwyn rhoi mwy o sylw i'w deulu sy'n byw yn y Fro. Gobeithio bydd o'n gallu tanio'r tîm er mwyn iddyn nhw gael dyrchafiad i'r Gynghrair Uwch ar ddiwedd y tymor fel Abertawe!

Mae sôn bod pobl y Fro am sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Barri o ganlyniad i ymweliad yr Eisteddfod er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr yr iaith a'r Cymry Cymraeg gymdeithasu â'i gilydd a rhoi hwb ymhellach i'r iaith yn y parthau hyn. Gwaddol Eisteddfod Wrecsam odd sefydlu Canolfan debyg yn y dre ac mae Canolfan Tŷ Tawe yn Abertawe wedi bod ar agor ers blynyddoedd. Odd tŷ tebyg yng Nghaerdydd sef Tŷ'r Cymry yn y Rhath ac yn y gorffennol bu'n ganolfan a biwro priodasol i lawer o Gymry ifanc a ddaeth i weithio yn y ddinas. Bellach ysywaeth mae oes aur y tŷ hwn wedi machlud gan fod llawer o weithgareddau Cymraeg newydd wedi codi i ddwyn sylw'r ifanc, ond mae'r Tŷ yn dal ar agor ac yn rhoi lloches i Gylch Meithrin Cymraeg.

Mae hi wedi bod yn Haf gwael o safbwynt y tywydd. Tybed a gawn ni Haf Bach Mihangel yn ystod mis Medi i godi ein calonnau cyn daw'r gaeaf ar ein gwarthaf unwaith eto? Amser a ddengys!

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Rwyn agos at orffen fy nefod flynyddol o ddarllen y gyfrol Cyfansoddiadau a Beirniadaethau. Fy nod pennaf ar y darlleniad cyntaf yw chwilota am gyffyrddiadau gwyddonol gan y beirdd, llenorion a beirniaid. Syndod pleserus eleni oedd cael fy moddhau'n gynnar iawn yn y gyfrol, ym meirniadaeth Mererid Hopwood ar yr Awdl, gyda'r sylw, 'Cryn gamp yw troi dehongliad gwyddonol astrus yn farddoniaeth...'. Mae'r awdl fuddugol yn agor gyda'r llinellau, 'Yn ras y tonnau ar draws y twynni, /Yn swn y gragen, mae hen, hen ynni...'. Dyma sail sêl Peter Hain am y Morglawdd Hafren. Tybed a fu ef a Dylan Iorwerth yn sgwrsio? Mae cerdd arall yn yr awdl, gyda'r teitl Esblygiad, yn cynnig, 'Rhannu cell, a'r ynni cudd yn y canol yw cynnydd' a cherdd arall, gyda'r teitl Grymoedd, yn nodi, 'Hen ŵr y lloer...yn tynnu ar y tonnau...'. Roeddwn dros ben fy nigon.

Braf oedd gweld beirniad arall, Ieuan Wyn, yn tynnu sylw at frychau iaith, er enghraifft, - nid yw "ll" a "rh" yn treiglo ar ôl "yn" – a felly cofiwn, 'Mae Llew yn LLenor a'i gartref yn LLyfrgell'. Onid yw'n ddyletswydd arnom ni a fagwyd o'r crud yn Gymry Cymraeg i loywi'n trysor?

Profiad gwefreiddiol oedd bod yn y Pagoda yn gwrando ar Dr Rhodri Jones yn traethu ar y Gwrthdrawydd Hadron Trwm (LHC yw'r talfyriad Saesneg). Mae Rhodri, mab Elenid a'r diweddar Dyfrig, yntau'n wyddonydd disglair, ar staff CERN, y sefydliad Ewropeaidd er hybu ymchwil niwclear ger Genefa. Wrth wrando ar y traethiad cofiais am ddau gyswllt 'eisteddfodol'. Yn gyntaf, yn 1986 dangosodd Dr Dyfrig ei wlatgarwch trwy ddewis cyhoeddi newyddion pwysig o'i ymchwil cosmolegol ar y Maes yn y Genedlaethol, yn hytrach na mewn cynhadledd o arbenigwyr. Mewn ychydig o flynyddoedd bu farw yn 49 oed. Yn ail, roedd y cyn-Archdderwydd Emrys Roberts yn nodedig ymhlith beirdd Cymraeg am ei gerddi yn ymwneud â gwyddoniaeth. Yn dilyn marw Dyfrig cyhoeddodd Emrys gerdd hyfryd yn coffhau camp a gwasanaeth y gwyddonydd dewr. Ym Mro Morgannwg bu'r Archdderwydd Jim yn coffhau Emrys, fu farw eleni.

***Neville Evans*** (0791 325 7371)

# Ôl-Lwybrau

## Bro fy Mebyd

'Roedd Caerdydd yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf yn wahanol iawn i'r ddinas bresennol. Mae'r ddinas wedi tyfu yn sylweddol yn y cyfamser. Yn ystod neu ar ôl y tridegau yr ychwanegwyd y rhannau mwyaf o'r maestrefi yng ngogledd y ddinas, Llanisien a Rhiwbeina, Llanrymni yn y dwyrain, a'r Tyllgoed yn y gorllewin. Rhwng ymylon Llandaf a Radur a rhwng Heol Cyncoed a Rhymni 'roedd meysydd agored. Nid oedd maestrefi Llanedeyrn a Phentwyn, Pentrebane a Danescourt yn bod. Yn wir, ni chyfrifid Radur na'r Eglwys Newydd yn rhannau o ddinas Caerdydd, ac ysgolion awdurdod lleol Morgannwg a fynychid gan blant yr ardaloedd hynny.

Lle gwahanol iawn i'r presennol oedd y bae. 'Roedd Caerdydd yn parhau i fod yn borthladd prysur. Yn y dociau byddai llongau masnachol yn mynd a dod yn ddi-baid, a diwydiant trwm yn chwarae rhan bwysig yn yr ardal. Oherwydd y masnach a'r gwaith ar y llongau daeth nifer helaeth o bobl o wledydd pell fel Somalia a'r Yemen i setlo yno. 'Roedd mosg yn yr ardal ar gyfer y Mwslimiaid, a hefyd eglwysi Norwyaidd a Groegaidd. 'Roedd gan yr ardal yr enw o fod yn lle afreolus. Erbyn heddiw, wrth gwrs, mae'r bae wedi ei adnewyddu a'i adfywio. Prin iawn iawn yw'r llongau masnach, ond adeiladwyd llawer o dai a fflatiau a chyfleusterau hamdden i gymryd lle'r diwydiannau a fu yno.

Lleiafrif bach iawn o bobl oedd yn berchen ar gerbydau preifat. Byddai'r mwyafrif ohonom yn defnyddio'r tramiau a redai i ganol y ddinas o bob cyfeiriad. Ceiniog oedd cost pob taith. 'Roedd beiciau yn fwy lluosog o lawer na cheir. Ar gefn beic y byddai mwyafrif mawr y disgyblion yn teithio i'r ysgolion uwchradd, a llawer o oedolion at eu mannau gwaith.

Diwrnod ar gyfer addoli oedd y Sul. Byddai pob siop a phob adeilad cyhoeddus ar gau a ni redai'r tramiau mor aml. 'Roedd cynulleidfaoedd lluosog yn perthyn i'r eglwysi Cymraeg, llawer ohonynt yn mynychu dau neu dri chyfarfod ar y Sul a nifer yn bresennol yng nghyfarfodydd yr wythnos hefyd. Yr eglwysi Cymraeg oedd y canolfannau cyhoeddus lle arferid siarad Cymraeg yn rheolaidd. Ond y tu allan i'r eglwysi nid oedd siarad Cymraeg yn ffasiynol iawn. Ychydig o Gymraeg a glywid ar y strydoedd, yn y siopau a mewn adeiladau cyhoeddus. Nid oedd ysgolion Cymraeg ar gael. Erbyn hyn mae'r iaith wedi cael lle cynyddol ym mywyd y ddinas. Mae'n fwy amlwg mewn adeiladau cyhoeddus, theatrau, siopau a swyddfeydd. Mae dyfodiad a thyfiant parhaol yr ysgolion Cymraeg, sydd ar gyfer plant o gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg, yn tystio i'r newid a fu yn statws yr iaith ac agweddau'r boblogaeth tuag ati.

**Gareth Lloyd Jones**

# Pasport



**Beth yw dy enw?**
Helo! Azul De Pol ydw i.

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
Dwi'n dod yn wreiddiol o La Plata, ym Muenos Aires, ond bues i'n byw ym Mhatagonia am 10 mlynedd.

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Dwi bellach wedi ymgartrefu yn Grangetown, ond bues i'n byw yn Llandaf am flynyddoedd.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?**
Symudais i Gaerdydd 9 mlynedd yn ôl.

**Beth fuest ti'n ei wneud cyn[neu]ar ôl symud yma?**
Cyn symud i Gaerdydd roeddwn i'n byw ym Mhatagonia. Dechreuais i a fy mam ddysgu Cymraeg 15 mlynedd yn ôl efo'r Cynllun Dysgu Cymraeg ym Mhatagonia – sydd gyda llaw wrthi'n chwilio am athrawon i fynd allan yno ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Penderfynon ni symud i Gymru a des i yn syth i ddechrau blwyddyn 10 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Dwi newydd raddio eleni o Brifysgol Aberystwyth lle roeddwn i'n astudio Cymraeg a Ffrangeg am 4 mlynedd. Treuliais i flwyddyn yn byw ym Mharis ac er oeddwn i'n hoff iawn o'r lle, a doedd dychwelyd i Gaerdydd ddim yn anodd fel oedd pawb yn dweud. Mae Caerdydd bellach yn gartref imi.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Os oes gen i amser rhydd dwi'n hoff o'i dreulio efo fy nheulu neu ffrindiau, gan amlaf yn yfed mate os mai ffrindiau o'r Ariannin ydyn nhw. Fel arall, dwi'n mwynhau nofio, mynd i'r parc, darllen a dwi wrth fy modd yn coginio, ac yn bwyta wrth gwrs! Yn enwedig trio pethau gwahanol na fyddwn i fel arfer yn eu bwyta!

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Ha, dwi'n un hoff iawn o jôcs gwael, dwi'n ffeindio nhw'n ddifyr iawn! Pobl ffraeth sy'n gwneud imi chwerthin llawer, ond fy nghariad sy'n gwneud imi chwerthin fwyaf!

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Dwi'n gwylltio'n hawdd pan mae pobl yn anystyriol a dwi'n methu dioddef pobl ffals.

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**
Y Bae ar ddiwrnod heulog achos does neb yn flin. Marchnad Glan yr Afon ar ddydd Sul ac unrhyw barc.

**Lle wyt ti'n hoffi mynd ar wyliau?**
De Ffrainc am wyliau traeth a phoeth, a gogledd Cymru am wyliau i ymlacio a mwynhau natur. Ond wrth gwrs os byddwn i'n gallu fforddio mynd i'r Ariannin ar wyliau, mi fyddwn i'n gwneud BOB TRO!! Mae popeth yn fanna!

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Fy hoff beth am Gaerdydd yw'r gwyrddni, heb os! A'r ffaith ei bod yn faint perffaith, dim rhy fawr, dim rhy fach! Dydy'r bobl ddim hanner drwg chwaith!

**Lle rwyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Gobeithio y byddai'n byw yng Nghaerdydd efo fy nheulu ac yn berchen ar dŷ bach neis ond o ystyried sut mae pethau ar hyn o bryd, efallai mai tŷ bach twt yn unig y bydd gen i!

---

Mae chwe blynedd wedi gwibio heibio ers i'r golofn yma gael ei sefydlu. Gan fy mod wedi symud nol i'r gogledd i fyw, dyma fydd y golofn olaf yn fy ngofal. Tybed oes yna rywun yn fodlon parhau gyda hi? **Rhys Llewelyn**, Pontcanna gynt.

# YSGOLION

## Ysgol Melin Gruffydd

**Buddugwyr Criced**

Unwaith eto, Ysgol Melin Gruffydd oedd buddugwyr Caerdydd yng Nghystadleuaeth Criced 50/50 dan 9 oed yr Urdd eleni, a gynhaliwyd yng Nghastell Caerdydd ar Orffennaf 10ed. Mae'r ysgol wedi profi llwyddiant dros y blynyddoedd dan arweiniad Mr Alun Higham ac fel canlyniad, hwy a gynrychiolodd y brifddinas yn nghystadleuaeth Cymru gyfan yn y Castell deudydd yn ddiweddarach. Ond y tro hwn er iddynt ennill eu grŵp, a hefyd gemau'r wyth olaf a'r pedwar olaf, Ysgol Dewi Sant, Llanelli, a oedd y fuddugol mewn ffeinal agos iawn. Da iawn, Melin Gruffydd - ail orau drwy Gymru gyfan!



*Y tîm gyda Mr Rogers (chwith) a Mr Higham (dde)*

## Ysgol Pencae

**Ymweliad â Tsieina**

**Ni hao,**

Aethon ni, Gwen, Bronwen, Adam a Nate gyda Mr Thomas y Pennaeth a Miss Davies ein athrawes ar ymweliad â Tsieina yn ystod mis Mehefin! Daeth pum ffrind gyda dau athro o Ysgol Lansdowne ynghyd â dau o athrawon o'r adran Gonfucuis Prifysgol Caerdydd gyda ni. Dyma brofiad bythgofiadwy!

Teithion ni ar yr awyren am gyfnod o ddeuddeg awr cyn cyrraedd Prifysgol Xiamen sydd ar yr arfordir ddwyreiniol y wlad. Mae Caerdydd a Xiamen wedi efeillio gyda'i gilydd a braf oedd gallu mynd yno er mwyn gweld y pethau sy'n gyffredin ac anghyffredin rhwng y ddwy wlad. Dysgon ni am iaith gymhleth, hanes cyfoethog ynghyd â diwylliant amrywiol y wlad. Diddorol yw nodi bod dreigiau'n ddolen gyswllt rhwng Cymru a Tsieina. Ymwelon ni ag ysgol yn y ddinas hon a sylwon ni bod y disgyblion yn ddisgybliedig iawn ac yn gwrando'n astud ar yr athrawes bob tro.

Yr ymweliad nesaf oedd dinas Chongquin gyda phoblogaeth o 7 miliwn a'r rhan fwyaf o'r bobl yn byw mewn fflatiau bychain yno, fflatiau llwm iawn yr olwg sy'n oer iawn yn y Gaeaf gan nad oes gwres canolog ynddynt. Cafon ni'r fraint hefyd o ymweld ag ysgol yn y ddinas hon hefyd ble cafon ni wersi caligraffi, Mandarin, Saesneg a Chelf! Un o uchafbwyntiau'r ymweliad oedd cael gweld pandas Tsieineaidd. Roedden nhw'n werth eu gweld, yn chwarae'n ddireidus ac yn bwyta llond eu boliau o fambŵ! Mae pobl Tsieineaidd yn dwlu arnynt. Yn ddi-os, dyma brofiad cofiadwy iawn fydd yn aros gyda ni am byth!

**Zai tsien!**

***gan Gwen, Bronwen, Adam a Nate***



*Y criw a aeth i Tsieina*

# Enillwyr yn y



***Bandiau Pres Dosbarth 3***
Band Dinas Caerdydd Melingriffith (2)



***Côr Pensiynwyr dros 60 oe***
Côr y Mochyn I



***Côr hyd at 35 o leisiau***
Côr CF1





***Parti Cerdd Dant hyd at 20 mewn nifer - Agored***
1. Criw Caerdydd



***Dawns Stepio i Grŵp***
1. Bro Taf (Pontypridd)





***Tlws Cymdeithas Genedlaethol Dawns Werin Cymru (90)***
1. Cwmni Dawns Werin Caerdydd

# ı yr Eisteddfod





***Bandiau Pres Pencampwriaeth/Dosbarth 1***
Band Dinas Caerdydd (Melingriffith)

***60 oed a dros 20 mewn nifer***
:hyn Du Caerdydd



***Medal Syr T H Parry-Williams - er clod***
Eirlys Britton, Caerdydd





*d*

***Parti Llefaru hyd at 16 o leisiau***
1. Parti Bach y Wenallt



***Côr Cerdd Dant dros 20 mewn nifer***
1. Merched y Ddinas





***Côr Cymysg rhwng 20 a 45 mewn nifer***
1. Cordydd

# FRITTATAS BACH CIG MOCH A BARA LAWR



Gyda'r plant nôl yn yr ysgol ar ôl gwyliau'r haf, dyma i chi rysait delfrydol ar gyfer eu bocs cinio – neu hyd yn oed ar gyfer picnic os gawn ni hâf bach Mihangel!

Digon i: 6

Paratoi: 15 munud

Coginio: 30 munud

***Cynhwysion***

4 sleisen cig moch cartref melys
2 llwy fwrdd olew olewydd
2 gorbwmpen *(courgette)* ganolig eu maint, wedi'u torri'n sgwariau
1 pupryn coch canolig ei faint, wedi'i dorri'n sgwariau
4 shibwnsyn, wedi'u sleisio
125g caws *Cheddar* Cymreig aeddfed wedi'i dorri'n gwibiau 1cm
8 ŵy buarth mawr
125ml *crème fraiche* neu hufen sengl
2 lwy fwrdd bara lawr
Pupur du newydd ei falu

Bydd arnoch angen tun 12 myffin, wedi'i iro'n dda, neu 12 mowld myffin hyblyg a thun pobi.

***Dull***

1) Cynheswch y ffwrn i 180°C/marc nwy 4.
2) Cynheswch yr olew olewydd mewn padell ffrio dros wres isel a ffrio'r cig moch am rai munudau cyn ychwanegu'r corbwmpenni, y pupryn coch a'r shibwns. Codwch y gwres a'i goginio am bum munud nes bod y llysiau'n frown golau. Gadewch iddo oeri am bum munud cyn ychwanegu'r caws.
3) Curwch yr wyau, yr hufen a'r bara lawr a thipyn o bupur du yn ysgafn mewn powlen.
4) Codwch y cymysgedd llysiau a chaws i'r tun myffins wedi'i iro ac arllwys y cymysgedd wyau drosto.
5) Pobwch am 25 munud nes y bydd wedi chwyddo, yn euraid ac wedi setio.

Gweinwch yn gynnes neu ar dymheredd ystafell.

*Hoffem gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru.*

**Diolch i Ymgynghoriaeth Bwyd Howel (www.howelfood.co.uk) am y rysáit.**

**Edrych am wersi**
**Clarinet ? .. Piano ? .. Organ ?**
**Theori cerddoriaeth ?**

Gwersi gan athrawon cerdd profiadol –
**Mrs Ruth Watt**, MA, BMus, LTCL
**Mr Howard Watt**, MMus, ARCO, FTCL

**Ffôn: 02920 658961**
**Ffôn sym: 07751 445581**



Soar

**Ocsiwn**



**Nos Wener Hydref 5ed 2012**

**7.30pm**

**Canolfan Soar, Merthyr Tudful**

Cyfle gwych i brynu nwyddau arbennig yn cynnwys:-

2 docyn i gêm rygbi Cymru v Awstralia— Rhagfyr 1af 2012
Cyfle i weld Tîm Rygbi Cymru yn ymarfer diwrnod cyn y gêm yn erbyn Awstralia
3 noson am bris 2 mewn bwythyn yng Nghymru

A llawer iawn mwy. Am restr lawn o nwyddau ewch i wefan www.merthyrtudful.com

Am fwy o wybodaeth ffoniwch : 01685 722176

Elw yn mynd tuag at Gyngerdd Gŵyl Ddewi Mawrth 2il 2013

Bydd tocynnau i'r cyngerdd ar werth ar y noson (£16.00 y tocyn)

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbeina

Bu farw Mr Dennis Francis, Maes-y-Deri, Rhiwbeina, ganol Gorffennaf, yn 65 oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod, Gwenda, y plant, Lowri, Dewi, Geraint a Trystan a gyda gweddill y teulu. Yn ystod ei yrfa bu Dennis ar staff y BBC, HTV a'r Amgueddfa Genedlaethol. Roedd yn hanu o ardal Castell Newydd Emlyn ac yn gefnder i fechgyn Parc Nest, ac fe gymerodd y tri prifardd, yn absenoldeb anorfod ein Gweinidog, ran yn yr angladd, y Parchedig Aled Gwyn yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion John Gwilym Jones a T. James Jones.

Cydymdeimlwn â Mrs Betty Sunderland yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod Raymond. Er yn aelodau yn Beulah bu'r ddau yn cefnogi ein gweithgareddau ym Methel ers sawl blwyddyn. Croesawyd aelod newydd, Mrs Shirley Williams, Rhiwbeina. Pob bendith iddi hi yn ein plith.

## Eglwys Dewi Sant

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Falmai Griffiths, Rhiwbeina, ei merch Siriol a'r teulu i gyd ar golli Brian, gŵr, tad a thadcu a oedd mor annwyl ganddynt.

Collwyd un o ffyddloniaid yr eglwys dros yr Haf, sef Mrs. Eirwen Jones, Heath Park Avenue. Cofiwn am ei gŵr Gwyn a'r teulu. Roedd Eirwen yn gyn-warden yr eglwys. Bu'r angladd yn Eglwys Dewi Sant ar y 18 Gorffennaf ac yn dilyn yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen.

### Llongyfarchiadau

i Rhodri a Lynn King, sy'n byw ger Leeds, ar enedigaeth merch, Anna Rachel, chwaer fach i Ffion.

### Gwibdaith

Trefnwyd gwibdaith ganol mis Awst i ymweld â dwy eglwys yn Esgobaeth Mynwy. Tywysodd Gwyn Matthews y grŵp o amgylch eglwys Santes Fair yn y Fenni, gan ddangos ei phrif nodweddion hanesyddol. Ar ôl cinio hamddenol yng ngwesty Llanwenarth, ymwelodd y grŵp ag Eglwys Crist yng Nglyn Ebwy, lle cafwyd croeso cynnes gan y Rheithor, cyn cynnal gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod ac yn ddiolchgar i Gwenda Williams am drefnu.

### John Scott yn Eglwys Dewi Sant

Rydym yn dathlu 125 mlwyddiant yr organ a adeiladwyd gan yr enwog Henry Willis, a adnabyddir fel 'Father Willis'. Mae'n offeryn unigryw ac yn cael ei chyfrif yn un o'i gampweithiau yng Ngwledydd Prydain. Uchafbwynt ein dathliadau oedd datganiad organ gan John Scott, Cyfarwyddwr Cerdd Eglwys Sant Thomas, Fifth Avenue, Efrog Newydd a chyn hynny yn Gyfarwyddwr Cerdd Cadeirlan Sant Paul, Llundain. Cynhaliwyd y datganiad hwn nos Sadwrn 21 Gorffennaf ac fe gawsom wledd gerddorol o'r radd flaenaf. Braint oedd ei groesawu unwaith eto i Eglwys Dewi Sant

### Datganiad Organ

Cynhaliwyd datganiad awr ginio ddiwedd Awst gan David Geoffrey Thomas, dirprwy organydd Eglwys Gadeiriol Llandaf. Cyflwynodd raglen amrywiol a roddodd gyfle iddo arddangos sain arbennig yr organ Willis. Bydd y cyngerdd nesaf yn y gyfres i ddathlu 125 mlwyddiant yr organ ar Fedi 21ain am 1:15 pm yn Eglwys Dewi Sant a'r organydd fydd Peter King, o Abaty Caerfaddon.

# Cyn-enillydd yn cipio'r Fedal Aur am Gelfyddid Gain

Cyn-enillydd un o brif ysgoloriaethau'r Eisteddfod Genedlaethol sydd wedi ennill Y Fedal Aur am Gelfyddyd Gain eleni.

Mae'r artist Carwyn Evans wedi arddangos ei waith yn rheolaidd yn arddangosfa'r Brifwyl ers ennill yr Ysgoloriaeth Artist Ifanc yn Llanelli yn 2000.

Yn ogystal mae'n derbyn gwobr ariannol o £5,000, rhodd gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen.

Y beirniaid oedd yr artist Sean Edwards, yr artist tecstilau Laura Thomas a Chyfarwyddwr Coleg Cenedlaethol Celf a Dylunio Dulyn, Declan McGonagle.

"Mae cyfres gweithiau Carwyn Evans yn nodi symudiad sylweddol yn ymarfer diweddar yr artist wrth gydio'n dynn wrth ei faterion craidd," meddai Sean Edwards am y casgliad sydd wedi eu gwneud allan o goed a chynffonau ŵyn, cerameg ac efydd.

Er bod yr artist wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd bellach, mae ei gynefin yn Llandyfriog, Ceredigion, yn ysbrydoliaeth barhaol iddo.



*Cast yw enw'r gwaith yma gan Carwyn Evans wedi ei wneud o china asgwrn a haearn*

# LLYFRAU

Mae'r gyfrol hon, ***Cofnodion***. Hunangofiant sydd yn croniclo hanes bywyd a gwaith un o ddeallusion pwysicaf Cymru yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae Meic Stephems wedi ysgrifennu, cyfieithu neu olygu oddeutu 170 o lyfrau, gan gynnwys y gyfres Writers of Wales, y Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru, dwy nofel, cyfieithiadau o nofelau Islwyn Ffowc Elis a Saunders Lewis a nifer o flodeugerddi. Daeth hefyd yn agos sawl tro i ennill y Goron dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny drwy farddoni yn y Wenhwyseg.





Yr hyn sydd yn hynod amdano yw iddo gael ei fagu ar aelwyd uniaith Saesneg yn Nhrefforest, ger Pontypridd, ac fel fel llawer o gyfoedion tebyg iddo, yn y brifysgol y penderfynodd ddysgu'r Gymtraeg. Meddai 'Bu i mi adael gartref am Aberystwyth ym 1956 yn ddi-Gymraeg, yn ddi-glem ac yn ddibrofiad o weddill Cymru. Bum mlynedd yn ddiweddarach, erbyn i mi orffen fy ngradd, ro'dd y brogarwr o Drefforest wedi troi'n genedlaetholwr..'

Gweithredodd Meic Stephens yn gyson o blaid y Gymraeg: roedd ymhlith y rhai a eisteddodd ar Bont Trefechan ym mhrotest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Cafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, a lansiodd y cylchgrawn Poetry Wales ym 1965 a'i olygu am wyth mlynedd. Yn yr un flwyddyn, fe briododd Gymraes, Ruth Meredith, a dysgodd y Gymraeg yn fuan wedi hynny. Maent wedi magu pedwar o blant trwy gyfrwng yr iaith, yn eu plith y DJ Huw Stephens; bellach, mae ganddynt ddeg o wyrion ac wyresau sy'n medru'r iaith.

Os am gopi adolygu neu ychwaneg o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi: branwen@ylolfa.com / 01970 832 304

# *Taliesin o Eifion a'i Oes: Bardd y Gadair Ddu Gyntaf, Eisteddfod Wrecsam, 1876*

'Un o Gyfrolau Pwysicaf y Flwyddyn'. Dyna ddywedodd Tegwyn Jones am y gyfrol sy'n cael ein sylw yn awr. Ac ychwanegodd y geiriau hyn: 'i'w darllen gan bawb sy'n ymddiddori yn hanes a llên Cymru.' Meddai'r Dr Meredydd Evans yntau: 'Cyfrol y byddai'r Athro Hywel Teifi Edwards yn falch iawn ohoni.' Teitl y gyfrol yw: ***Taliesin o Eifion a'i Oes: Bardd y Gadair Ddu Gyntaf, Eisteddfod Wrecsam, 1876***. Y mae'n bortread byw o fardd, paentiwr a chrefftwr dawnus a diddorol iawn: Thomas Jones, brodor o Lanystumdwy a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llangollen a'r cyffiniau. Ef, fe gofiwn, oedd awdur yr englyn:




**Cymru lân, Cymru lonydd; - Cymru wen,**
**Cymru annwyl beunydd;**
**Cymru deg, cymer y dydd;**
**Gwlad y gân, gwêl dy gynnydd.**


Dyma gyfrol sy'n agor cil y drws ar un o'r cyfnodau pwysicaf yn hanes Cymru. Y mae hefyd yn:

- Ddathliad o draddodiad cyfoethog teulu nodedig o seiri coed a gwneuthurwyr cadeiriau eisteddfodol o Langollen;
- Darlun o fwrlwm eisteddfodol a gweithgarwch Gorsedd y Beirdd, ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg;
- Cofnod o'r drysu rhwng Cymreictod a Phrydeindod, cenedlaetholdeb a gwladgarwch;

Awdur y gyfrol yw'r **Dr Robin Gwyndaf**, Cymrawd Ymchwil er Anrhydedd yn Amgueddfa Werin Cymru. Hon yw ei bymthegfed gyfrol mewn cyfres o lyfrau ar ddiwylliant gwerin Cymru.

Y cyhoeddwyr yw'r Lolfa, ac y mae'r llyfr ar werth yn eich siopau yn awr. Y pris:£19.95.

# DINESAIR Rhif 125




### Ar Draws

2. Y doeth yn dychwel yn rhydd (3)
5. Y 50 tedi trist heb gartref (6)
7. Drwy law Noa daw'r melodiau (6)
9. Y syniad mewn câs gwau yw dangos rhaniad (11)
10. Tro dall yn peri blinder (6)
11. Heb delerau mae'r diemwnt yn Lloegr yn colli ei nodwedd cyntaf (6)
13. 'Ym ------- glyd yr annwyl Oen
    Heb friw na phoen, 'r wyn llechu'(W.W.) (6)
16. Ymladd chwalu'r cymod cyn y tro (6)
18. 'Yn oriel yr ----------- mae ambell glic,
    Megis yr un lle ceir y Bardd Cocos a Dic'
    (THP-W) (11)
19. Rhoi'ch cred mewn pac o eli oren (6)
20. Marc yn dilyn yr aig wrth ymgeisio (6)
21. 'Rwyn gwybod am y dryll (3)

### I Lawr

1. Llewellyn yn torri gwair fel enfys (6)
2. Y gwylwyr yn dysgu ar yn ail yn y llaid (6)
3. 'Y mae casineb yn achosi cynnen, ond y mae ---- yn cuddio pob trosedd' (Diarhebion) (6)
4. Môr du o gymhlethdod yw gyrru (6)
6. 'Hwn a gâr yn fwy nag ------
    ----  ----- Efe' (PJ) (5, 3, 3,)
8. '------ ------ ----- ----- ----- hyd mewn cof a chalon
    Hen bethau anghofiedig teulu dyn?'
    (Waldo)(1, 3, 1'1, 4, 1)
10. Mwy nag un yn cyfuno (3)
12. Mwy nag un pâr (3)
14. Dyma'r osgo sy'n dangos amynedd (6)
15. Siriol a gorchest gyffrous annorffennedig (6)
16. Can gloyn yn gwnio mantell (6)
17. Lle y codir llawer yn Lloegr i'r glorian (6)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Hydref.

**Enillydd Croesair Rhif 123 -**

**Linda Thomas, Llwynbedw, Caerdydd**

**Atebion Rhif 123**

**Ar Draws** – 1. Ciniawa; 5. Colled; 8. Mab; 9. Yn safonol; 10. Actau; 12. Cenllysg; 13. Gwamal; 15. Diadell; 18. Pysgota; 19. Cwdyn; 20. Gorffennaf; 21. Ple; 22. Glust; 23. Chwennych.
**I Lawr** – 1. Cymraeg; 2. Neb; 3. Awyru; 4. Ansicr; 5. Cyfenwi; 6. Llencyndod; 7. Dolig; 11. Trawsyrru; 14. Anonest; 16. Llannerch; 17. Masnach; 18. Pigog; 19. Cyfle; 21. Pwn.

# Pererindod Heddwch Waldo

Ym mis Medi eleni bydd y cyfrifydd a'r rhedwr rhyngwladol Huw Roberts, sy'n wreiddiol o Llandissilio yn sir Benfro, yn gwneud pererindod heddwch o 45 milltir fydd yn dilyn llwybrau'r bardd Waldo Williams fel rhan o ddigwyddiadau Penwythnos Waldo. Dyma'r trydydd pererindod i Huw, y gyntaf i Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen yn 2007 ac yn 2010 taith o Landdewi Brefi i Dŷ Ddewi. Codwyd £22,000 tuag at elusennau yn ystod y ddwy daith.



Bydd y daith yn cychwyn o Dŷ'r Crynwyr yn Aberdaugleddau, lle 'roedd Waldo yn addoli, ar ddydd Iau Medi 27ain ac yn dilyn llwybr Waldo trwy Hwlffordd, lle ganed Waldo, i Ysgol Casmael, lle 'roedd yn dysgu, ac yn gorffen wrth y bedd yn Llandissilio. Ar Sadwrn Medi 29ain, mae croeso i bawb ymuno â'r daith trwy gerdded naill ai 7 milltir o gofeb Waldo ger Mynachlog Ddu am 12.00 i Llandissilio, neu 2 filltir o Dafarn y Bush (2.00pm) i'r bedd. Bydd te yn Nant y Ffin i ddilyn i bawb.

Codir £10 am y daith gerdded ar y Sadwrn sy'n cynnwys y te, ac mae'r elw yn mynd i Gymdeithas Waldo. Gellir cofrestru trwy gysylltu gyda Mr Hefin Parri-Roberts ar 01994 419376 neu Robertshefin@btinternet.com. Gellir cyfrannu ar lein www.justgiving.com/huwrobertspilgrimageforpeace neu trwy ddanfon siec yn daladwy i Sefydliad Prydeinig y Galon at Mr Huw Roberts, Sefydliad Prydeinig y Galon, Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd CF11 9EP.

# Calendr y Dinesydd • Medi-Tachwedd

**Iau, 13 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Emynau Dathlu Minny Street' dan ofal y Parch. Owain Llŷr Evans, yng Nghapel Minny Street am 7.30pm.

**Llun, 17 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Wil Morus Jones (Bangla Cymru), yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Gwener 21 Medi**
Dathliadau 125 mlwyddiant Organ Eglwys Dewi Sant. Datganiad Organ gan Peter King, Abaty Caerfaddon, rhwng 1.15 a 2.00pm. Mynediad am ddim; casgliad ymadael. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 21 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Siarad Trwy'i Het.' Karen Owen yn trafod ei gwaith, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 21 Medi**
H (Cleif Harpwood ac aelodau o Edward H. Dafis) ac Einir Dafydd yn perfformio yng Nghlwb y Diwc, Treganna. Tocynnau: £10 o siop Caban, Pontcanna.

**Sadwrn, 22 Medi**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Dr E. Wyn James am 11.00am am y Wladfa ym Mhatagonia. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 22 Medi**
Gêm rygbi: CWINS Caerdydd v. Pont-y-clun. Adran 3 De-Ddwyrain. C.G. 2.30pm. Maes Diamond, Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.

**Mawrth, 25 Medi**
Noson Agoriadol Clwb y Dwrlyn yng nghwmni'r cerddor bytholwyrdd Rhys Jones, y cyfansoddwr, arweinydd a darlledwr o Glwyd, yng Nghlwb Rygbi Pen-tyrch, am 8.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 26 Medi**
Gwasanaeth, Ffair a Noson Goffi Cymdeithas y Beibl, yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.00pm. Tocynnau i'r ffair: £1. Anerchiad gan y Parch. Denzil John.

**Iau, 27 Medi**
Cyfarfod nesaf Cwlwm Busnes Caerdydd. Rhiannon Rowley, Cwmni Abaca Organics, Gwesty'r Holiday Inn, Caerdydd am 6pm. Bydd lluniaeth ysgafn a nid oes tal.

**Sadwrn, 29 Medi**
Cymdeithas Carnhuanawc. Taith o amgylch Cwm-du (sydd rhwng Crucywel a Thalgarth), lle bu Thomas Price ('Carnhuanawc') yn offeiriad. Tywysydd: Keith Bush. Cyfarfod wrth Eglwys Llanfihangel Cwm Du am 11.00; gorffen wrth feddrod Carnhuanawc am 12.30pm. Bydd cyfle wedyn i gael rhywbeth i'w fwyta a chlonc yn y Farmers Arms (www.the-farmers-arms.com), ac mae Llys a Chastell Tretŵr yn agos ar gyfer ymweliad yn y prynhawn i'r sawl sy'n dymuno.

**Llun, 1 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 3 Hydref**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Gwener, 5 Hydref**
Dathliadau 125 mlwyddiant Organ Eglwys Dewi Sant. Datganiad Organ gan Huw Williams, Capel Brenhinol Ei Mawrhydi, Palas Sant Iago, Llundain, rhwng 1.15 a 2.00pm. Mynediad am ddim; casgliad ymadael. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 5 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Noson agoriadol y tymor. Sgwrs gan y Llywydd newydd, Dr E. Wyn James, ar y testun 'O Fyddin y Potomac i Fae Caerdydd: Hanes Lliwgar Evan Rowland Jones, Ail Lywydd y Cymrodorion', yn festri Capel Minny Street am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: Gwynn Matthews (029-2056-2880).

**Sadwrn, 6 Hydref**
Gêm rygbi: CWINS Caerdydd v. Aberhonddu. Adran 3 De-Ddwyrain. C.G. 2.30pm. Maes Diamond, Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.

**Iau, 11 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Gwesteiwraig: Ann Clwyd. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (029-2069-4667).

**Sadwrn, 13 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais. Datganiad Organ gan Michael Charnell-White, am 12.30pm. Mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 16 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith i Lancaeach Fawr. Yn gadael y Deri am 1.30pm.

**Gwener, 19 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Prifardd Alan Llwyd ar y testun 'Kate a Bob: Llunio Cofiannau Kate Roberts ac R. Williams Parry', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru.

**Gwener, 19 Hydref**
Dafydd Iwan: Cana dy Gân. Noson sy'n rhan o daith i gofnodi 50 mlynedd o berfformio gan Dafydd Iwan, yn Theatr Weston, Canolfan y Mileniwm. Manylion pellach: www.sainwales.com; 01286-831111; ellen@sainwales.com.

**Sadwrn, 20 Hydref**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs am 11.00am gan Dr Phil Ellis am Wallasey a'r Glannau. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 23 Hydref**
Y jasband, Burum, a'r chwaraewr ffliwt o Lydaw, Jean-Michel Veillon, yn perfformio yn Dempsey's, ger Castell Caerdydd.

**Mercher, 7 Tachwedd**
Merched y Wawr Bro Radur. Sgwrs gan Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 8 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs ar y testun 'Crefydd mewn Ysgol' gan John Hayes, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm.

**Gwener, 16 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Guto Prys ap Gwynfor ar y testun 'Henry Richard (1812-88): Yr Apostol Heddwch a'r Aelod dros Gymru', yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm.

**Sadwrn, 17 Tachwedd**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs am 11.00am. gan Lynne Davies am Lydaw. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. 'Bywyd Cerddor.' Noson yng nghwmni Alun Guy, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 19 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Pwyllgor Blynyddol yng nghapel y Crwys am 7.30pm.

**Gwener, 23 Tachwedd**
Maffia Mr Huws a Bromas yng Nghlwb y Diwc, Treganna. Tocynnau: £9 o siop Caban, Pontcanna.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

# ANTUR BARRY CHAMBERLAIN




Ar ddiwrnod anhygoel o braf ym mis Gorffennaf eleni, hwyliodd deg cwch i mewn i borthladd Southampton, ar ddiwedd ras unigryw aeth â nhw am 40,000 o filltiroedd o gwmpas y byd. Roedd y criwiau wedi cymryd rhan mewn 15 ras, ac wedi ymweld â 14 o borthladdoedd, gan gynnwys Singapore, San Francisco, Panama, Efrog Newydd, Halifax Nova Scotia, Derry-Londonderry a Den Helder.

Roedd Barry yn aelod o griw'r *'Edinburgh Inspiring Capital'*, a chawsom fodd i fyw yn ystod y flwyddyn wrth ddilyn hynt a helynt y llynges, gweld lluniau a gwylio fideos. Dyma'r unig ras yn y byd lle mae'r profiadol a'r dibrofiad yn gyfangwbl gyfartal. O yrwyr tacsi i brifweithredwyr cwmnïau rhyngwladol, mae pawb yn ddibynnol ar y llall. Roedd pob aelod o'r criw yn barhaol wlyb, yn dioddef o ddiffyg cwsg, cysur, a blinder meddyliol a chorfforol ... ond, yn ôl Barry, roedd y rhyfeddodau a welsant, y profiadau a gawsant, y croeso oedd yn eu disgwyl ym mhobman a'r cyfeillgarwch a ffurfiwyd rhyngddynt, yn goresgyn popeth.

Roedd yr 'Edinburgh' yn unigryw am sawl rheswm: dyma'r unig griw fyddai'n hwylio i mewn i bob porthladd yn gwisgo 'kilts a sporrans'; dyma'r unig gwch i gael 3 chapten gwahanol yn ystod y daith; a dyma'r unig gwch a roddodd gyfle i 18 a oedd wedi derbyn trawsblaniad organau, wthio eu hunain i'r eithaf. Hefyd, dyma'r unig gwch, allan o'r 10 ... ddaeth yn ddegfed yn y Ras! Ond roedd y profiad a enillwyd yn amrhisiadwy!

Mae'r fenter hon, hyd yn hyn, wedi codi bron i £7,000. Dymuna ddiolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth. Am fwy o wybodaeth, neu os am gyfrannu, ewch i wefan - **www.justgiving.com/BarryChamberlain**

---

## Disgybl Bro Morgannwg ar daith i NEWID BYD

Mae un o ddisgyblion Ysgol Bro Morgannwg y funud hon yn teithio i ben draw'r byd i gael blas ar wirfoddoli mewn gwlad dramor - a hynny ar gyfer cyfres newydd ar S4C. Mae Luis Miles Evans, sy'n 17 oed o Benrhyn y Rhws ym Mro Morgannwg, ynghanol taith i Uganda gyda thri unigolyn ifanc arall o Gymru, lle cânt eu ffilmio ar gyfer ail gyfres **Newid Byd**.

Mae Luis yn achubwr bywyd ar draeth Ynys y Barri ac yn y Pwll Olympaidd ym Mae Caerdydd yn ei amser sbâr. Cynrychiolodd Cymru mewn cystadlaethau nofio ar sawl achlysur. Meddai Luis, "Dwi'n teimlo'n gyffrous fy mod yn rhan o **Newid Byd** gan mai pwrpas y daith yw helpu'r bobl leol sydd yn byw mewn ardaloedd llai datblygedig. Dwi ddim yn gwybod rhyw lawer am Uganda, felly fe fydd y trip yma yn agor fy llygaid i'r holl dlodi a niwed sy'n bodoli yn y wlad. Bydd y profiad yma yn newid sut dwi'n edrych ar bobl, ac efallai yn newid sut dwi'n ymateb i sefyllfaoedd tebyg."

Yn cymryd rhan gydag ef yn y fenter y mae Iestyn Wyn Lewis o Lannerch-y-medd, Rachel Lewis o Bontarddulais a Ceri Elsbeth Lewis o Bwllheli, pob un dan ofal yr arweinydd profiadol Arwel Phillips.

Mae'r pedwar yn cynorthwyo mewn prosiectau cymunedol pwysig er mwyn gwella ffordd o fyw i'r cymunedau. O adeiladu sied geifr i sefydlu llyfrgell, cynaeafu coffi a phlannu coed, fe fydd yn cynnig blas iddynt o ddiwylliant gwlad Uganda.



## Colofnydd y Mis – Lynda Pritchard Newcombe

Yn y frwydr i adfer yr iaith Gymraeg mae llawer o sylw wedi cael ei roi i ysgolion cyfrwng Cymraeg, protestiadau a'r cyfryngau ond nid yw cyfraniad oedolion sydd yn dysgu Cymraeg wedi cael llawer o ystyriaeth, a hynny er bod y nifer o ddysgwyr wedi cynyddu cymaint ers y chwedegau. Yn yr wythdegau hyd yn oed mae Lois Martin-Short sydd erbyn hyn yn diwtor llwyddiannus wedi dod ar draws agweddau rhyfedd at ddysgwyr.

*"Roedd pobl yn codi eu hysgwyddau ac yn dweud ... 'Iaith anodd i ddysgu ydy hi, mae'n well ei dysgu yn blentyn.'"*

Erbyn hyn mae agweddau at ddysgwyr a'u cyfraniad i'r iaith yn amrywio. Un peth sy wedi codi ymwybyddiaeth am allu a chyfraniad dysgwyr ydy cystadleuaeth dysgwr y flwyddyn sy'n cael ei chynnal yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Braf oedd gweld y pedwar yn y rownd derfynol yng Ngwesty'r Bear yn y Bontfaen ar yr 8fed o Awst eleni. Roedd y pedwar ohonynt yn haeddu ennill y teitl: Ashok Ahir o Wolverhampton, Rhian Dickenson o Gilwern, Isaías Grandis o Batagonia a Mark Morgan o Gastell Nedd.

O'r diwedd dewisodd y beirniaid Isaías sydd erbyn hyn yn rhugl ac yn hybu'r iaith yn Nhrevelin, Godre'r Andes. Breuddwyd Isaías yw sefydlu Ysgol Ddwyieithog (Cymraeg a Sbaeneg) yn Nhrevelin fel Ysgol yr Hendre yn Nhrelew.



*Yn y llun gydag Isaias a Sandra de Pol gwelir tri pherson fu'n diwtoriaid yn Y Wladfa, Gwilym Roberts, Hazel Charles Thomas ac Eluned Evans.*

Braf oedd clywed hefyd bod Isaías yn Gristion ac yn pregethu yn y Gymraeg yn y capel lleol. Yng Nghymru lle mae cymaint o bobl wedi troi eu cefn ar ffydd ein cyndadau mae'n galonogol gwybod bod dyn ifanc mor frwd dros yr efengyl a'r iaith Gymraeg. Byddai'r diweddar Mair Davies a weithiodd fel cenhades am flynyddoedd yn y Wladfa* wrth ei bodd oherwydd ei bod hi'n gweddio y byddai'r efengyl a'r iaith Gymraeg yn ffynnu yn y capeli yn yr Andes.


*Gweler *Hyd eithaf y ddaear*, (2010) gol. gan Gwen Emyr, Gwasg y Bwthyn

## Mae Gweinidog â chyfrifoldeb am yr Iaith Gymraeg yn galw ar bapurau bro Cymru i ddefnyddio'r dechnoleg newydd er mwyn denu cynulleidfa newydd ac apelio at y genhedlaeth ifanc.

Mae Leighton Andrews am weld yr iaith Gymraeg yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y cyfryngau newydd a thechnoleg. Roedd yn annerch cyfarfod cenedlaethol y Papurau Bro yn yr Eisteddfod ddydd Sadwrn.

"Rydyn ni am i bobl weld bod y Gymraeg yn iaith fodern, fyw," meddai. "Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod yr iaith ar gael i bawb ym mhob math o gyfathrebu.

"Mae'r Papurau Bro yn draddodiad pwysig yng Nghymru, ond wrth i fwy o bobl droi at y dechnoleg newydd am eu newyddion, mae'n hanfodol eu bod yn defnyddio'r dulliau newydd hyn o gyfathrebu.



"Mae nifer o gyfleoedd ar gael i helpu'r broses o gyhoeddi'r Papurau Bro i symud â'r oes, o'r dylunio a'r cysodi i ddefnyddio Hyperlocal i'w hyrwyddo.

"Mae llawer iawn o dechnoleg ar gael i'w gwneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach a rhoi lle i leisiau newydd."

### 'Rhannu syniadau'

Dywedodd Bryan James, Is-Gadeirydd Pwyllgor y Dinesydd, Papur Bro Dinas Caerdydd ar Cylch, fod y cyfarfodydd cenedlaethol yn yr Eisteddfod yn gyfle i rannu syniadau a materion sy'n gysylltiedig â Phapurau Bro. "Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed barn y Gweinidog am y cyfryngau newydd a thechnoleg," meddai. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru, Iaith fyw: Iaith Byw, yn rhoi pwysigrwydd mawr ar swyddogaeth technoleg a'r cyfryngau digidol yn nyfodol yr iaith, ac yn gynharach eleni sefydlwyd Grŵp y Gymraeg, Technoleg a'r Cyfryngau Digidol i roi cyngor ar y rhan hwn o'r strategaeth.

"Yn yr 21ain Ganrif, mae'r ffaith bod cynnwys cyfryngau digidol ac apps nid yn unig yn caniatáu i'r iaith Gymraeg ffynnu, ond hefyd yn galluogi siaradwyr y Gymraeg i gymryd rhan yn llawn fel dinasyddion digidol," ychwanegodd Mr Andrews. "Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl gan y technolegau diweddaraf ac yn hytrach ein bod yn eu defnyddio i ddangos bod yr iaith Gymraeg yn gyfrwng creadigol, pwerus, modern sy'n hawdd ei addasu."